

lofa). Y dyddiad yw *June 19th 1887*. Ond llawysgrifen oedolyn yw hon (fel yn ei gopi o *Enoc Huws* ym 1892) - mor wahanol i'w ymdrechion llafurus yn bedair ar ddeg oed ym Mhennant, Llanbrynmair.

Dau Ddirgelwch

Mae'r manylion personol hyn a ysgrifennwyd ar dudalennau glân nofel a misolyn yn taflu peth goleuni ar hysgrifun a gyfnewidiodd fywyd gwledig Sir Drefaldwyn am fwrldwyr yn o ddyffrynnoedd diwarther olaf y De-ddwyrain yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn ôl y wybodaeth a gefais gan fy nhad, symudodd John Edwards i Merthyr Vale gyda'i deulu (rhieni, brawd a phum chwaer) o ganlyniad i agor glofa Nixon's Navigation.³ Hanes digon tebyg fu i lu o deuluoedd a fudodd i gymunedau clôs, dosbarth-gweithiol cymoedd Maes Glo'r De - '*American Wales*' yn ôl yr Athro A.H.Zimmern (o'i gwrthyferbynu â '*Welsh Wales*' ac '*upper-class or English Wales*').⁴

Ond erys dau ddirgelwch am yr Edwardsiaid. Soniaf uchod am deuluoedd yn mudo. Ond ai dyna'n union a ddirgelwydd ym mhob achos? Mae Cyfrifiad 1881 am Bennant, Llanbrynmair yn disgrifio John Edwards, y tad (45 oed) yn 2 *Chapel House* fel '*coal miner*'. Yna rhestrir Jane ('*wife, 46*') a'r holl ferched: Anne (16 oed), Jane (11 oed), Margaret (9 oed), Miriam (6 oed) a Hannah (3 oed). Ond 'does dim sôn am y mab John (tuag 21 oed ar y pryd) nag am ei frawd William (tua 19).⁵

Ym mha lofa oedd y penteulu yn gweithio ym 1881, yn lle bod yn was ffarm? Ai digwydd bod gartref ydoedd ar noson y Cyfrifiad, wedi dychwelyd am ysbaid o'r 'Sowth'? A beth am y bechgyn? A oedd John

a William oddi cartref am eu bod nhw hefyd yn lowyr? A fu iddyn nhw gael eu cofrestru fel '*lodgers*' gan ryw *landlady* mewn rhyw bentref glofaol pell? Bùm yn holi'm diweddar dad am hanes fy nheulu yn helaeth, ond dyna gwestiynau na feddyliais erioed eu gofyn.

Eu Datrys

Yna, ar yr unfed awr ar ddeg, fel petai, daeth yr atebion. Wrth baratoi hyn o lith i'r *Casglwr*, edrychais ar ambell ddogfen deuluol. A wele: deyrnged i William Edwards, brawd John, o dan y pennawd '*Oldest Tradesman's Death*' yn y *Merthyr Express* pan fu farw yn 85 oed ym 1947 (ar ôl gweithio yn y lofa, aeth i gadw siop sgidiau ym Merthyr Vale a'i galw'n '*Pennant House*' er cof am ei fro enedigol).

Ond y frawddeg arwyddocaol yn y deyrnged oedd: '*A native of Llanbrynmair, he went to work at the lofa of Nixon's Navigation, his father and brother in 1880*'. Dyna egluro absenoldeb y ddau frawd ar noson Cyfrifiad 1881 a'r disgrifiad o'u tad fel '*coal miner*'! Mae'n debyg bod y fam a'r merched wedi symud i Merthyr Vale yn ddiweddarach, ar ôl cyfnod o fynd-a-dod gan y tad a'r bechgyn. Dyna lle cyfarfu Jane â'm taid, John Lloyd o Benrhyndeudraeth, yn ddiweddarach - a'i briodi.

Dyna hefyd lle cyfarfu Evan Jones, fy nhad-cu, â Sarah Phillip, fy mam-gu. Hanai ei deulu yntau o Langeitho a'i theulu hithau o'r Betws, Rhydaman. Ac fe'm ganed innau ym Merthyr Tudful, ychydig filltiroedd i fyny'r Cwm, yn gynnyrch '*American Wales*', chwedl yr Athro Zimmern.

NODIADAU A CHYDNABYDDIAETHAU

1. Pam '*Chapel Pennant*'? Mae Cyfrifiad 1881 (soniaf amdano ymhellach ymlaen) yn cyfeirio at '*Chapel House*' a 2, 3 a 4 '*Chapel*



John Lloyd a Jane Lloyd (Edwards gynt), rhieni fy nhad. Byddai pobl 'Y Pendryn' yn sôn am fy nhaid fel 'John Lloyd Sowth'. Ar ôl gweithio yn Nixon's Navigation, aeth yn ofalwr ar Gapel Aber-fan (M.C.)


House [Houses?] - teras, efallai; neu dycapel go-iawn a theras o dri? Roedd yr Edwardsiaid yn byw yn Rhif 2.

2. Cynigir emyn Williams Pantycelyn 'O iachawdwriaeth gadarn...' i'w ganu ar *Missionary* yn *Y Methodist*. Ond cysylltir y dôn hon yn draddodiadol ag emyn cenhadol yr Esgob Reginald Heber (1783-1826): '*From Greenland's icy mountains...*'. Ymddangosodd y dôn o dan yr enwau *Heber* a *Missionary* mewn gwahanol lyfrau emynau, a bu'n rhaid i fynegai *Caneuon Ffydd* (cydenwadol, 2001) gyfeirio at *Heber* gyda'r geiriau '*gweler Missionary*' i arbed dryswch. Ceir trosiad o eiriau'r Esgob gan Morris Davies yn *Emynau'r Eglwys* (1941) a throsiad / addasiad gan John Morris-Jones yn *Llyfr Emynau y Methodistiaid Calffinaidd a Wesleiaidd* (1927). Mae chwe thôn o waith Lowell Mason (1792-1872) yn *Caneuon Ffydd*.

3. Dechreuodd y diwydiannwr John Nixon suddo ei lofa yn Ynysowen ym 1869, a'i galw yn *Merthyr Vale Colliery* pan agorodd ym 1875. Rhoddwyd hwb i'r enw Saesneg pan agorwyd gorsaf reilffordd Merthyr Vale ym 1883. Ond atgyfodwyd 'Ynysowen' yn ddiweddar, ac fe'i gwelir ar yr arwyddion ffyrdd dwyieithog ar gyrion y pentref heddiw.

4. Zimmern, Alfred E. *My Impressions of Wales*. London: Mills & Boon, [1921], p.29 [copi fy nhad]. Ie - Mills & Boon! Ac yn y cefn rhestrir *Mills & Boon's Special Half-crown Novels* a'u *Cheap Popular Reprints*. Bu'r Athro Zimmern yn Bennaeth yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth rhwng 1918 a 1920.

5. Rydw i'n ddiolchgar am fanylion Pennant, Llanbrynmair, yng Nghyfrifiad 1881 i Mrs Dilys Glover, Yr Wyddgrug, sydd â chysylltiadau agos â Llanbrynmair.



Ffotograff a dynnais tua 1960. Blaendir: yr hen briffordd o Ferthyr Tudful i Gaerdydd yn mynd drwy Merthyr Vale, gyda'r rheilffordd islaw. Canol: y lofa yn ei hanterth (caeodd ym 1989). Cefndir: Aber-fan (rhed yr A470 ddeuol newydd y tu ôl i'r pentref heddiw). Yn codi uwchben y gefn ar y gorwel mae'r tomenni sbwriel pyramidaidd a achosodd drychineb 1966; fe'u gostyngwyd yn ddiweddarach.